# Ysgol Gymraeg Sant Curig

Heol y Coleg, Y Barri, CF62 8HQ
01446 744222
ysantcurig@valeofglamorgan.gov.uk
www.ysgolgymraegsantcurig.com

# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni 2020-2021

Annwyl Riant

Yn unol â Deddf Addysg (Rhif 2 1986) mae'n rhaid i ni fel Corff Llywodraethu gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni, sydd yn amlinellu ein gwaith a'n gweithgareddau. Nid yw hi'n ofynnol mwyach i gynnal cyfarfod agored i drafod yr adroddiad, ond os ydych yn dymuno gwneud hynny, yna cysylltwch â swyddfa'r Ysgol i drafod ymhellach.

**Cynnwys:**


1. Cyfarchiad y Cadeirydd
2. Llawlyfr yr Ysgol
3. Digwyddiadau a Champau / Chwaraeon
4. Eisteddfod
5. Gweithio Gydag Eraill
6. Mwy Abl a Thalentog
7. Cynllun Datblygu'r Ysgol – Blaenoriaethau 2020/2021
8. Bwrdd y Llywodraethwyr a Pholisïau
9. Aelodau Staff / Sesiynau Ysgol / Trefn Dosbarthiad
10. Elusennau
11. Cwricwlwm, Cofnodi ac Asesu
12. Bwyta'n Iach
13. Addysg Uwchradd
14. Trefniadau Pontio
15. Cysylltiad â'r Gymuned
16. Athrawon
17. Anghenion Dysgu Ychwanegol
18. Blaenoriaethau 2021/2022
19. Canlyniadau 2020/2021
20. Presenoldeb 2020/2021
21. Cyllideb yr Ysgol
22. Adeilad yr Ysgol
23. Tai Bach
24. Yr Ardd Wyllt
25. Cyfleusterau Chwaraeon
26. CRhAFf
27. Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2021/2022

1. **<u>Cyfarchiad y Cadeirydd</u>**

Fel Cadeirydd y Llywodraethwyr mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 20/21. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o wybodaeth ystadegol ynghyd â gwybodaeth am fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn brysur yn paratoi ac yn cynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd ac yn edrych ar addasu ffyrdd cyffrous o weithio a dysgu i roi'r cyfleoedd gorau i'r holl ddisgyblion.

Mae Sant Curig bob amser wedi ystyried bod lles y disgyblion o bwys mawr ac mae'n dyst i waith caled y staff bod yr ysgol wedi'i dewis i fod yn ysgol beilot i sicrhau 'dull ysgol gyfan' o iechyd meddwl a lles yn cael ei fabwysiadu.

Ar ran y corff llywodraethu hoffwn ddiolch i'r holl staff yn yr ysgol am yr ymroddiad y maen nhw wedi'i ddangos wrth ddarparu amgylchedd maethlon a gwerth chweil i'r plant ddysgu ynddo, er gwaethaf yr heriau parhaus y mae cymuned yr ysgol yn parhau i'w hwynebu fel canlyniad y Pandemig Covid-19. Hoffwn ddiolch hefyd i'r CRhAFf a ffurfiwyd yn ddiweddar ac sy'n gweithio'n galed i feddwl am ffyrdd arloesol a hwyliog i godi arian ar gyfer plant Sant Curig. Yn ddiweddar, cefais y pleser o fynychu'r ras hwyl yn Ynys y Barri a drefnodd y CRhAFf. Roedd yn wych gweld cymaint o ddisgyblion ac aelodau o'r teulu a ddaeth yn wylwyr a chyfranogwyr!

Rwy'n hynod falch o'r ffordd y mae'r disgyblion wedi addasu i'r sefyllfa sy'n newid yn barhaus, ac er bod staff yr ysgol wedi gwneud eu gorau i gadw cyn lleied â phosibl o aflonyddwch, bu a bydd yn parhau i fod yn amseroedd heriol. Rwy’n hyderus i ddweud na fyddai'r newidiadau hyn wedi bod mor hawdd oni bai am gefnogaeth a hyblygrwydd ein rhieni a'n gwarcheidwaid, ac am hyn rydym yn diolch.

Oherwydd sefyllfa Covid-19 a gorfod cau ysgolion am 6 mis, dydy’r adroddiad eleni ddim mor gynhwysfawr ag arfer. Gohiriwyd nifer fawr o weithgareddau a thripiau eleni.

2. **Llawlyfr yr Ysgol**

Mae copi llawn o lawlyfr yr Ysgol ar gael o'r brif swyddfa.

3. **Digwyddiadau a Champau / Chwaraeon**

Yn anffodus yn sgil y pandemig byd eang, ni chynhaliwyd digwyddiadau na champau chwaraeon yn ystod y flwyddyn.

4. **Eisteddfod**

Yn anffodus ni chynhaliwyd Eisteddfod draddodiadol eleni oherwydd sefyllfa Covid-19.

5. **Gweithio gydag eraill**

Yn anffodus gyda chyfyngiadau ar ysgolion, ni lwyddon ni i gyd-weithio gydag ysgolion yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

- Mae'r ysgol yn rhan o Ffederasiwn ysgolion o fewn Consortiwm Canolbarth y De (Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr, RCT a Phenybont).

6. **Gweithgareddau ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Mwy Abl a Thalentog**

Cwtogwyd y cyfleoedd i gyd-weithio gydag ysgolion clwstwr y Barri gyda'r gwaith MATh oherwydd Covid-19.

- Dewiswyd arweinwyr ymysg ein disgyblion i fod yn aelodau o'r Cyngor Ysgol, Cyngor ECO, Cyngor Siarter Iaith a'r Cyngor Chwaraeon.

7. **Blaenoriaethau ac Adolygiad Cynllun Datblygu Ysgol 2020/2021**

| **Blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol 2020/2021** | |
|---|---|
| Blaenoriaeth | **Targed** |
| **1. Cryfhau ymhellach gweithdrefnau ymddygiad yr ysgol er mwyn creu disgyblion sydd yn iach a hyderus ac yn gallu ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi ei selio ar barch tuag at eu gilydd.** | - Datblygu sgiliau staff wrth ddefnyddio technegau cymhelliant.<br>- Uwch sgilio aelodau staff mewn agweddau megis 'Attachment disorder', Trawma ac ACEs a.y.y.b. |
| **2. Parhau i ddatblygu'r Ysgol fel sefydliad sy'n dysgu er mwyn creu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes.** | - Cryfhau egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn ein staff.<br>- Datblygu gwybodaeth staff o'r Cwricwlwm. |

| | |
|---|---|
| | - Arbrofi a datblygu systemau o gynllunio effeithiol gan ddefnyddio egwyddorion y Cwricwlwm Newydd i Gymru.<br>- Ffocysu ar y 12 egwyddor addysgeg a defnyddio'r rhain i lunio Rheoli Perfformiad staff gan ystyried triawdau. |
| **3. I barhau gyda pharatoi ar gyfer y ddeddf ADY, Medi 2021** | - Cyflwyno gwybodaeth gywir, reolaidd i staff am y newidiadau o ganlyniad i'r Ddeddf, a'u rôl nhw.<br>- Codi ymwybyddiaeth o weithdrefnau Arfer Person Canolog o fewn yr ysgol gan weld esiamplau o hyn ar lawr y dosbarth.<br>- Newid ein map ddarpariaeth yn raddol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gan staff o haenau o ymyrraeth a darpariaeth arbenigol yn hytrach na darpariaeth eang.<br>- Codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i holl rhan-ddeiliaid yr ysgol, mewn modd addas i'r gynulleidfa. |
| **4. Hyfforddi staff a datblygu gwybodaeth o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol** | - Staff yn hyderus wrth gynllunio ar gyfer y Fframwaith.<br>- Cryfhau egwyddorion y Cwricwlwm Newydd i Gymru.<br>- Datblygu gwybodaeth staff o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. |
| **5. Creu Cynllun Datblygu sydd yn ffocysu ar Ddysgu Cyfunol a'r cyfleoedd mae'r ysgol yn darparu ar gyfer dysgu ar-lein i'n disgyblion a'r cyfleoedd i staff i ddysgu'n broffesiynol wrth ystyried dysgu cyfunol.** | - Creu polisi a chynllun gwaith ar gyfer dysgu cyfunol.<br>- Cefnogi lles ymarferwyr yn yr ysgol drwy ddarparu canllaw a chynllun gwella wedi'i arwain gan ymchwil o arfer dda yn y maes yma.<br>- Cefnogi arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion i nodi cyfleoedd a heriau dysgu cyfunol trwy gwestiynau strategol i'w hystyried (gweler polisi).<br>- Darparu cefnogaeth ar gyfer addysgeg a dysgu i hyrwyddo strategaeth glir o fewn darpariaeth ac arfer dysgu cyfunol. |

| |
|---|
| **Is-Flaenoriaethau:** |
| Gweithgareddau'r Siarter Iaith. |
| Datblygu ymhellach 'ysgrifennu' ar draws yr ysgol. |
| Canolbwyntio ar sgiliau sylfaenol Rhifedd drwy'r ysgol. |

## 8. Bwrdd y Llywodraethwyr a Pholisïau

Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am reoli'r ysgol yn effeithiol. Pedair blynedd yw cyfnod swydd arferol Llywodraethwr ac mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethu llawn i'w weld isod. Cynhaliwyd cyfarfodydd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn gyda'r Corff Llywodraethu'n cyflawni ei dyletswyddau statudol. Ymgymerodd y Llywodraethwyr ag ystod o weithgareddau hyfforddi a datblygu gan gynnwys rheoli cyllid, iechyd a diogelwch, effeithiolrwydd egni, canllawiau gwrth fwlio, rheoli perfformiad, rheoli gwaharddiadau yn ogystal â mynychu'r Gynhadledd Flynyddol ar gyfer Llywodraethwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael am rôl y Corff Llywodraethol, y cyfarfodydd hyfforddiant a datblygu a fynychwyd a chofnodion y cyfarfodydd ar gael gan glerc ein Llywodraethwyr.

Trafodwyd amrywiaeth o agweddau gan gynnwys gweithgareddau Ysgol, cyllid Ysgol, nod ac amcanion yr Ysgol, adroddiadau'r Pennaeth a chynlluniau i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau newydd yng Nghyfnod Allweddol 2.  Adolygwyd datblygiad Cynllun Datblygu Ysgol yn rheolaidd ac fe ddarparwyd diweddariad ohono gogyfer â phob cyfarfod.

Mabwysiadwyd ystod lawn o bolisïau yn ystod y flwyddyn a chant eu hadolygu yn ôl yr amserlen.  Cedwir bob polisi ar safle'r Ysgol.

**Aelodau o'r Corff Llywodraethu 2020/2021**

| Rôl y Llywodraethwyr | Enw |
|---|---|
| Cadeirydd (Ysgol Sant Curig, Heol y Coleg,Y Barri, CF62 8HQ – 01446 744222) | Mrs Tiffany Barker |
| Is-gadeirydd | Mrs Bethan Owen |
| Pennaeth | Mr Rhodri Jones |
| Rhiant Lywodraethwyr | Ms Ricki Lewis, Mrs Bianca Williams, Mrs Rebecca Warner, Mrs Charlotte Brown, Mr Jeffrey Mitchell |
| Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Lleol | Mr Lynden Mack, Mrs Meinir Thomas, Dr Sian Williams, Mr Gwynne Griffiths |
| Cynrychiolwyr Staff | Mrs Samantha Sampson, Mrs Heledd Francis, Mrs Ruth Lee (non-teaching) |
| Aelodau Cymunedol | Mr Andrew Humphreys, Mrs Bethan Owen, Mrs Tiffany Barker, Ms Emma Sullivan |
| Clerc i'r Llywodraethwyr<br>(Ysgol Sant Curig, Heol y Coleg,Y Barri, CF62 8HQ – 01446 744222) | Miss Rachel Cox |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau<br>Pennaeth Safonau a Darpariaeth<br>MAR | Mrs Paula Ham<br>Mrs Morwen Hudson<br>N/A |

9. **Aelodau Staff / Sesiynau Ysgol / Trefn Dosbarthiadau**

| Aelodau Staff 2020/2021 | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Mr R Jones |
| **Dirprwy Bennaeth** | Mrs H Francis |
| **Athrawon** | Miss A Withey, Miss H Saar, Miss S Nicholas (Mamolaeth), Miss A Merrick (Mamolaeth), Mrs N Lewis-Jones, Mrs E Morrison, Mrs N Thomas, Miss S Watkins, Mrs C Walsh, Mr Ll Huw (mamolaeth), Mr AP Williams, Miss M Jones (Hyd at Ebrill), Miss H Owen, Miss B Donaldson, Mrs L Weighell, Mrs S Iwan-Jones, Mr M Price, Mrs S Sampson, Miss N Davies (CPA), Mr M Llwyd (CPA), Mrs J Griffiths. |
| **Gweinyddwraig Ysgol**<br>**Cynorthwywyr Gweinyddol** | Mrs N Hallett<br>Miss C Paget, Miss B Hayward |
| **Uwch Gynorthwywyr** | Mrs C Jones, Mrs J Bowen |
| **Staff Cynnal Dysgu** | Mrs E Parry, Miss S Jones, Miss H Sparkes, Mrs R Lee, Mrs H Ruck, Mrs S Humphreys, Miss J Martin, Mrs S Jenkins, Miss Rh Carter, Miss K Press, Mrs T Nugent, Miss H Burns, Mrs R Hart (asiantaeth), Miss C Kelly (asiantaeth), Mrs S Mepham (asiantaeth), Miss E Willicombe (asiantaeth), Miss R Williams (asiantaeth) |
| **Gofalwr** | Mr I Ellis |
| **Cynorthwywyr Cinio** | Mrs C Mason, Mrs C Roberts, Mrs L Wyatt, Miss C Downes, Mrs N Richardson. |
| **Goruchwylwyr Clwb Brecwast** | Mrs C Jones, Mrs K Rosser-Collins, Miss B Hayward, Mrs C Mason, Mrs L Wyatt. |
| **Staff Clwb Carco** | Mrs E Parry, Mrs C Jones, Mrs H Ruck. |
| **Y Gegin** | Mrs C Jones |
| **Athrawon Cerddoriaeth** | Mrs K Kuczynski, Mrs E Henry, Mr L Bradshaw, Miss M Powell, Mr Dimitri. |

| Sesiynau Dysgu (Roedd rhai newidiadau i'r drefn oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ac asesiad risg yr ysgol) | |
|---|---|
| Bore | 09:30 - 11:30 (Meithrin) |
| | 08:40 - 11:30/11:45 (Cyfnod Sylfaen) |
| | 08:40 - 12:15/12:30 (Adran Iau) |
| Prynhawn | 12:30 - 14:30 (Meithrin) |
| | 13:00 - 14:45/15:00/15:10 (Cyfnod Sylfaen) |
| | 13:00 - 14:50/15:00/15:10/15:20 (Adran Iau) |

| Trefn Dosbarthiadau 2020/2021 | |
|---|---|
| **Meithrin** | Mrs C Jones |
| **Derbyn** | Miss A Withey/Miss H Saar/Miss S Nicholas/Mr Huw |
| **Blwyddyn 1** | Mrs N Lewis-Jones/Mrs E Morrison/Mrs N Thomas/Miss A Merrick |
| **Blwyddyn 2** | Miss S Watkins/Mrs C Walsh/ Mr Ll Huw |
| **Blwyddyn 3** | Mr AP Williams/Miss M Jones/Miss N Davies |
| **Blwyddyn 4** | Miss B Donaldson/Mrs L Weighell/Miss N Davies/Mrs J Griffiths |
| **Blwyddyn 5** | Mrs S Iwan-Jones/Miss H Owen/Mr M Llwyd |
| **Blwyddyn 6** | Mrs S Sampson/Mr M Price |
| **CPA** | Mrs J Bowen/Mr M Llwyd/Miss N Davies |

**10. Cefnogwyd yr elusennau isod;**

Plant Mewn Angen, 'Comic Relief', 'The Little Princess Trust' ac Ysbyty Felindre

**11. Cwricwlwm, Cofnodi ac Asesu**

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Arbrofwn gyda chynlluniau a themâu er mwyn sicrhau parodrwydd ar gyfer y Cwricwlwm Newydd. Prif iaith yr ysgol yw'r Gymraeg. Disgwyliwn i'r plant gyfathrebu yn y Gymraeg drwy'r amser heblaw mewn gwersi Saesneg. Dysgir pob gwers drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cydlynwyr yn gyfrifol am wahanol agweddau o'r cwricwlwm e.e Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a Gwyddoniaeth. Cyflwynir Saesneg fel pwnc ym Mlwyddyn 3. Arbrofwn drwy grwpio staff i'r chwe maes dysgu a phrofiad mewn paratoad i'r Cwricwlwm i Gymru. Astudir amryw o themâu diddorol a gynlluniwyd ar y cyd gyda'r disgyblion o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 gan sicrhau fod pob agwedd o'r cwricwlwm yn cael ei haddysgu. Dysgir Addysg Ryw fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd addysgu'r Cyngor Addysg Iechyd ar gyfer y plant hŷn. Os na chawn ein hysbysu'n wahanol gan rieni caiff Addysg Grefyddol ei addysgu mewn ffordd anenwadol gyda phob un yn mynychu gwasanaeth boreol. Fel rhan o'r cwricwlwm, caiff crefyddau eraill eu hastudio.

Asesir a thrafodir gwaith yn rheolaidd gan staff. Trefnir nosweithiau agored deirgwaith y flwyddyn yn ystod tymor yr Hydref, Gwanwyn a Haf i rieni drafod gwaith eu plentyn ynghyd ag adroddiad ysgrifenedig manwl gan yr ysgol. Mae'r staff ar gael ar adegau eraill i gyfarfod â rhieni os oes angen naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

**12. Bwyta'n Iach**

Anogir ein disgyblion i fwyta'n iach ar bob achlysur. Mae'r Ysgol yn aelod o Rwydwaith Ysgolion Iach Bro Morgannwg ac wedi derbyn clod am gyrraedd Cam 5. Caniateir i'n disgyblion yfed dŵr yn ystod gwersi er mwyn sicrhau nad ydynt yn sychedig. Caiff ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y cyfle i brynu ffrwyth yn ddyddiol a rhoddir diod o laeth am ddim iddynt bob dydd. Gofynnwn i'n rhieni i ddarparu byrbryd iachus i'n disgyblion.

**13. Addysg Uwchradd**

Mae gennym gysylltiadau ardderchog gydag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ac mae athrawon cyswllt o Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn i gwrdd â disgyblion a rhieni Blwyddyn 6 i'w cynorthwyo gyda'r pontio i'r ysgol uwchradd. Bu'r plant hefyd yn ymweld â'r Ysgol Uwchradd ar amryw o achlysuron, yng nghyd-destun chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol. Rydym yn gweithio ar y cyd gyda holl ysgolion Cymraeg y Fro ac YGBM i weithredu Cynllun Pontio Cynradd / Uwchradd. Cynhelir cyfarfodydd cyson er mwyn cyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd er mwyn sicrhau cysondeb mewn safonau.

**14. Trefniadau Pontio mewnol ein hysgol**

Fel arfer:

- Cynhelir cyfarfodydd croesawu rhieni newydd i blant Meithrin ein hysgol dair gwaith y flwyddyn.
- Cynhelir cyfarfodydd pontio o'r Derbyn i Flwyddyn 1, Blwyddyn 1 i Flwyddyn 2, Blwyddyn 2 i Flwyddyn 3, Blwyddyn 3 i Flwyddyn 4, Blwyddyn 4 i Flwyddyn 5 a Blwyddyn 5 i Flwyddyn 6 yn ystod hanner tymor olaf y flwyddyn academaidd.

Yn anffodus oherwydd sefyllfa Covid-19 roedd rhaid cysylltu gyda rhieni'n rhithiol i gyflwyno gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gwnaethpwyd hyn drwy gyflwyno Pwerbwynt ar Microsoft Teams.

**15. Cysylltiadau gyda'r Gymuned**

Mae'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Argyfwng megis yr Heddlu a'r Frigâd Dân. Mae gennym raglen o ymweliadau gyda'n Heddwas Cymunedol sydd yn ymweld â phob dosbarth yn yr Ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Trafodir agweddau megis diogelwch ar y ffordd, dieithriaid yn ogystal â chyffuriau, seibrbwlio a diogelwch ar y wê (Trefnwyd y rhain yn rhithiol eleni).

Mae gennym hefyd gysylltiad agos â Chapel y Tabernacl a defnyddir Llyfrgell y dref yn achlysurol. Rydym yn ymweld â chartref gofal i'r henoed yn flynyddol i'w diddanu yn ogystal â chymryd rhan mewn gwasanaethau crefyddol lleol. Mae gan yr Ysgol gyswllt agos a Menter Bro Morgannwg. Derbyniwyd grant o £3100 gan gwmni lleol Dow Corning i ddechrau datblygu gweithgareddau STEM i blant Y Cyfnod Sylfaen.

**16. <u>Athrawon</u>**

Cynhaliwyd cyfarfodydd Hyfforddiant Mewn Swydd i staff ar ôl ysgol yn wythnosol i drafod materion yn ymwneud â'r cwricwlwm a bywyd bob dydd yr ysgol. Cynhaliwyd sawl gweithgaredd datblygiadol gan gynnwys hyfforddiant mewn swydd ar ddarllen a sillafu, agweddau o TGCh, monitro a thracio cynnydd disgyblion, ysgrifennu Cymraeg ar draws yr ysgol, y Fframwaith digidol, edrych ar Drawma ac 'Attachment Disorder' ac agweddau o rifedd ar draws y cwricwlwm. Cynrychiolwyd yr ysgol gan aelodau o staff mewn amryw o grwpiau clwstwr (Llythrennedd, Rhifedd, Digidol ac Addysgeg) er mwyn sicrhau cysondeb addysgu a safonau mewn meysydd pwnc ar draws yr ysgol a'r Sir. Rhoddwyd 72% o'r hyfforddiant i dri agwedd yn benodol; Anghenion Dysgu Ychwanegol, Y Cwricwlwm i Gymru ac Addysgeg.

**17. <u>Anghenion Dysgu Ychwanegol</u>**

Ein Dirprwy Bennaeth Mrs Heledd Francis ydy CADY (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol). Mae'r ysgol a'n Cydlynydd ADY yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni ac asiantaethau allanol i gefnogi ein disgyblion. Mae Mrs Francis hefyd yn brysur iawn yn paratoi'r ysgol ar gyfer y Ddeddf ADY newydd a fydd yn dod i ysgolion ym mis Ionawr 2022.

**18. <u>Blaenoriaethau ar gyfer 2021-2022</u>**

| |
|---|
| *1.* Cwricwlwm i Gymru – Parhau i ddatblygu'r Ysgol fel sefydliad sy'n dysgu er mwyn creu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes. |
| 2. Deddf ADY Newydd – Parhau i ddatblygu ein systemau Arfer Person Canolog, addasu ein systemau tracio i gyd-fynd gyda'r newidiadau a mireinio'r ddarpariaeth ar lawr y dosbarth ar gyfer disgyblion o bob gallu. |
| 3. Llythrennedd – Cryfhau ymhellach sgiliau llafar a gwrando ein disgyblion er mwyn ymateb i'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig ym meysydd ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. |
| 4. Rhaglen Dysgu Carlam – Rydym yn gorfod cyfiawnhau ein gwariant o'r grant dysgu carlam i gefnogi disgyblion wrth iddynt ddod yn ôl i'r ysgol ar ôl colli cyfnodau hir o addysg dros gyfnod y pandemig. |
| 5. Mewnblannu dull ysgol gyfan wrth ystyried lles emosiynol a meddyliol staff a disgyblion yn yr ysgol. Rydym yn ysgol beilot ar gyfer y strategaeth yma a byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda'r Sir. |

**19. Profion Diwedd Cyfnod 2020/2021**

Ni chasglwyd unrhyw ddata plant yn ystod 2020/2021 oherwydd sefyllfa Covid-19.

**20. Presenoldeb 2020/2021**

Ni chyhoeddwyd ffigurau presenoldeb llynedd oherwydd sefyllfa Covid-19. Serch hynny, presenoldeb yr ysgol ar gyfer y flwyddyn oedd 94.5%

**21. Cyllideb yr ysgol 2020/2021**

Fe lwyddodd yr ysgol i osod cyllideb a oedd yn cydbwyso ar gyfer y flwyddyn 2020/2021.

Vale of Glamorgan Council Ysgol Gymraeg Sant Curig Outturn Report 2020/21 Revenue Summary

| COST CENTRE CODE | COST CENTRE DESCRIPTION | DETAIL | ANNUAL BUDGET | TOTAL ACTUAL |
|---|---|---|---|---|
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | CONT. TO FUNDS | 4,100.00 | 4,098.74 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | CONT TO GENERAL RESERVE | 4,100.00 | 4,098.74 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | EMPLOYEES | 1,355,302.00 | 1,329,588.91 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | TEACHING EMPLOYEES | 910,224.00 | 870,737.13 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | NON TEACHING EMPLOYEES | 189,830.00 | 188,791.22 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | GRANT EMPLOYEES | 254,810.00 | 270,060.56 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | INDIRECT EMPLOYEES EXPS | 438.00 | 0.00 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | INTERNAL RECHARGES EXPEND | 120,116.00 | 137,039.79 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | INTERNAL RECHARGES EXPEND | 120,116.00 | 137,039.79 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | PREMISES | 121,585.00 | 124,463.63 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | CLEANING AND DOMESTIC SUPPLIES | 55,225.00 | 54,712.16 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | ENERGY | 19,885.00 | 20,286.66 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | GROUNDS MAINTENANCE | 2,605.00 | 2,601.17 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | RATES | 22,330.00 | 22,330.00 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | REPAIRS & MAINT OF BUILDING | 15,000.00 | 16,810.48 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | WATER SERVICES | 6,540.00 | 7,723.16 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | SUPPLIES AND SERVICES | 22,637.00 | 25,611.28 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | COMMS AND COMPUTING | 7,290.00 | 6,045.04 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | EQUIP. FURNITURE & MATERIALS | 13,000.00 | 9,728.34 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | MISC EXPENSES | -16,858.00 | 135.00 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | PRINTING STATIONERY & OFFICE EXPS | 19,000.00 | 9,251.98 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | SERVICES | 205.00 | 450.92 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | CUSTOMER RECEIPTS | -5,000.00 | -29,813.99 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | CHARGE FOR SERVICE | | -4,750.00 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | DONATIONS | -5,000.00 | -9,195.19 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | SALE OF PRODUCTS | | -15,868.80 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | GOVERNMENT GRANT | -237,887.00 | -297,313.86 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | OTHER GOVERNMENT GRANTS | -4,784.00 | -8,247.16 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | WG GRANTS | -233,103.00 | -289,066.70 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | INTERNAL RECHARGES INCOME | -30,323.00 | -39,638.34 |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | INTERNAL RECHARGES INCOME | -30,323.00 | -39,638.34 |
| | | Total 101315 | 1,350,530.00 | 1,254,036.16 |

| COST CENTRE | BSLEVEL3 | OPENING BALANCE | MOVEMENT | CLOSING BALANCE |
|---|---|---|---|---|
| 910048 - Ysgol Sar | Schools Employees and misc balances | -55,697.28 | 152,191.12 | 96,493.84 |

**22. Adeilad yr Ysgol**

Adnewyddwyd y tarmac sy’n rhedeg drwy’r ysgol eleni. Cafodd tai bach y meithrin eu hadnewyddi yn ogystal. Fe dalodd yr ysgol i wella ansawdd ein hardal chwarae tu allan yn ogystal â thalu am nifer o gysgodfannau lawr yn ein huned blynyddoedd cynnar. Fe dalodd yr Awdurdod Lleol i drwsio piben ddŵr oedd wedi ffrwydro yn ogystal â thrwsio’r coed anferthol ar ein safle.

**23. Cyfleusterau Tai Bach**

Mae’r Ysgol yn cyflawni’r gofynion statudol ac mae gennym y nifer cywir o dai bach ar gyfer y nifer o blant sydd yn yr Ysgol. Caiff y tai bach eu glanhau’n ddyddiol gan dîm glanhau’r Sir ac rydym yn monitro eu cyflwr yn rheolaidd. Mae cyflwr boddhaol toiledau’r ysgol wedi’i gynnal, er ein bod yn rhagweld y bydd angen eu hadnewyddu yn y dyfodol agos ac rydym ar y rhestr ar gyfer uwchraddio ein toiledau derbyn y flwyddyn academaidd nesaf 2021/2022.

**24. Yr Ardd Wyllt**

Mae ein Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau (CRhAFf) wedi cymered yr awenau wrth ddatblygu ein Gardd Wyllt. Diolchwn iddyn nhw am eu hymdrechion wrth iddynt baratoi’r ardal ar gyfer holl ddisgyblion Sant Curig.

**25. Cyfleusterau Chwaraeon**

Mae holl blant yr Ysgol wedi gallu manteisio ar y cyfleusterau allanol ar gyfer chwarae yn ogystal â chymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon a chystadlaethau. Mae cwmni Cynnal a Chadw Ardaloedd Allanol yn ymweld â’r Ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cyflwr y cyfleusterau allanol e.e. ffram ddringo. Edrychwn yn y flwyddyn 2021/2022 i ddefnyddio arain a godwyd mewn gweithgareddau noddi i wella ar ansawdd ein hoffer chwaraeon ymhellach.

**26. CRhAFf**

Braf oedd gweld ein CRhAFf newydd yn gweithio’n galed iawn i godi arian er lles disgyblion Sant Curig eleni. Ar ddiwedd y flwyddyn, brynodd y CRhAFf offer technoleg ar gyfer neuadd yr ysgol. Edrychwn ymlaen at ei ddefnyddio unwaith bydd yna gyfle i holl blant yr ysgol ddod nol at ein gilydd.

**27. <u>Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2021/2022</u>**

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| **Hydref 2021** | Dydd Gwener 3 Medi 2021 | Dydd Llun 25 Hydref 2021 | Dydd Gwener 29 Hydref 2021 | Dydd Gwener 17 Rhagfyr 2021 | 71 |
| **Gwanwyn 2022** | Dydd Mawrth 4 Ionawr 2022 | Dydd Llun 21 Chwefror 2022 | Dydd Gwener 25 Chwefror 2022 | Dydd Gwener 8 Ebrill 2022 | 64 |
| **Haf 2022** | Dydd Llun 25 Ebrill 2022 | Dydd Llun 30 Mai 2022 | Dydd Gwener 3 Mehefin 2022 | Dydd Gwener 22 Gorffennaf 2022 | 59 |
| | | | | **Cyfanswm** | **194** |